



TEMPLED O DDATGANIAD I'R WASG

DATGANIAD I'R WASG

I'w ryddhau ar unwaith: [dyddiad]

Neu

Dan embargo tan: [amser/dyddiad]

<ENW'R CYNGOR> yn clywed llais pobl sydd â chlefyd niwronau motor

Cyfle i dynnu lluniau: manylion am y cyfle i dynnu lluniau os yw'n berthnasol

Mae <Enw'r Cyngor> wedi cytuno i fabwysiadu'r Siarter clefyd niwronau motor (MND) i gefnogi pobl leol sy'n byw gyda'r clefyd marwol hwn, ynghyd â'u gofalwyr.

Mae MND yn salwch marwol sy'n ymledu'n gyflym, sy'n gallu gadael pobl yn gaeth yn eu corff methodig eu hunain, yn methu symud na siarad ac, yn y pen draw, yn methu anadlu. Mae'n lladd tua thraean o bobl o fewn blwyddyn ar ôl y diagnosis, a mwy na hanner o fewn dwy flynedd. Does dim gwellhad.

Yn affodus, nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn gwybod rhyw lawer am MND ac mae hyn yn cyfrannu at sefyllfa lle nad yw llawer o bobl sydd â'r clefyd yn cael y gofal a'r cymorth sydd ei angen arnyh nhw. Lanswyd y Siarter MND i newid hyn.

<DYFYNIAD GAN GYNGHORYDD NEU GYNRYCHIOLYDD AR RAN Y CYNGOR, I'W NEWID FEL BO'R ANGEN>

"Rydw i'n falch iawn bod ein cyngor ni wedi cytuno i fabwysiadu'r Siarter MND. Mae'n hanfodol bod rhagor o bobl yn ymwybodol o anghenion pobl sydd ag MND fel bod y rhai sy'n byw gyda'r clefyd dinistriol hwn yn gallu gwneud y gorau o ansawdd eu bywyd a marw gydag urddas".

<DYFYNIAD GAN UNIGOLYN LLEOL SY'N BYW GYDAG MND NEU'N CAEL EI EFFEITHIO GAN Y CYFLWR>

Dyweddodd Chris James, Cyfarwyddwr Materion Allanol y Gymdeithas MND "Mae'r Siarter MND yn bwysig iawn yn ddi-os. Rydyn ni eisiau i bawb wybod fod mynediad at y gofal priodol, yn y lle priodol, ar yr amser priodol, fel y nodir yn ein Siarter, yn gallu gwednewid bywydau."

Am ragor o wybodaeth, ewch i www.mndassociation.org/mndcharter

NODIADAU I OLYGYDDION

Gwybodaeth am y Gymdeithas MND

Sefydlwyd Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor ym 1979 gan grŵp o wirfoddolwyr oedd â phrofiad o fyw gyda neu ofalu am rywun ag MND. Ni yw'r unig elusen genedlaethol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sy'n canolbwyntio ar ofal, gwaith ymchwil ac ymgyrchu mewn perthynas ag MND.

Rydyn ni'n sefydliad aelodaeth ac mae gennym ni fwy na 9,000 o bobl sy'n helpu i gryfhau ein llais. Mae 'Hyrwyddo'r Siarter ar garreg eich drws' yn un o fentrau'r Gymdeithas MND.

Am ragor o wybodaeth ewch i www.mndassociation.org

Yr hyn mae'r Gymdeithas MND yn ei wneud

Rydyn ni'n gwella gofal a chymorth i bobl ag MND, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Rydyn ni'n cyllido ac yn hyrwyddo gwaith ymchwil sy'n arwain at well dealltwriaeth a thriniaethau newydd, ac yn dod â ni gam yn nes at ddod o hyd i ffordd o wella pobl sy'n dioddef o'r clefyd.

Rydyn ni'n ymgyrchu ac yn codi ymwybyddiaeth fel bod anghenion pobl ag MND a phawb sy'n gofalu amdany'n nhw'n cael eu cydnabod ac yn cael sylw gan y gymdeithas ehangach.

Gwybodaeth am glefyd niwronau motor

Mae MND yn glefyd angheuol. Mae'n gwaethygu'n gyflym, ac yn effeithio ar yr ymennydd ac ar fadruddyn y cefn.

- Mae'n ymosod ar y nerfau sy'n rheoli symudiadau fel nad yw cyhyrau'n gweithio mwyach. Nid yw MND fel arfer yn effeithio ar synhwyrau fel golwg, y clyw, teimlo ac ati.
- Gall adael pobl yn gaeth yn eu corff methodig eu hunain, yn methu symud na siarad ac, yn y pen draw, yn methu anadlu.
- Mae'n effeithio ar bobl o bob cymuned.
- Gall rhai pobl brofi newidiadau o ran meddwl ac ymddygiad, gyda chyfran yn profi math prin o ddementia.
- Mae'n lladd traean o bobl o fewn blwyddyn a mwy na hanner o fewn dwy flynedd i'r diagnosis.
- Mae'r risg y bydd rhywun yn datblygu clefyd niwronau motor yn ystod ei oes yn hyd at un mewn 300.
- Mae chwech o bobl yn cael diagnosis o MND yn y Deyrnas Unedig bob dydd.
- Mae'n effeithio ar hyd at 5,000 o oedolion yn y Deyrnas Unedig ar unrhyw un adeg.
- Mae'n gyfrifol am farwolaeth chwech o bobl bob dydd yn y Deyrnas Unedig, sef cyfanswm o ychydig llai na 2,200 y flwyddyn
- Does dim ffordd o'i wella

- DIWEDD -